

SF FI 01

Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg  
Response from: Welsh Language Commissioner

Annwyl Glerc,

### Gwybodaeth ychwanegol berthnasol ar gyfer yr ymgynghoriad ar gyllido ysgolion yng Nghymru

Fel y gwyddoch, rydym eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriad y pwyllgor ar gyllido ysgolion yng Nghymru. Ers cyflwyno'r dystiolaeth rydym wedi dod yn fwy ymwybodol o sut y gallasai diffyg cyllid danseilio datblygiad y Gymraeg mewn addysg. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r wybodaeth hon yn gallu cael ei chyflwyno fel rhan o'n tystiolaeth yn ogystal.

Yn ddiweddar, bu Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar newidiadau sylweddol i ddarpariaeth canolfannau iaith hwyrddfyodiad y sir ([gweler eitem 6 ar yr agenda am fwy o wybodaeth a gweddarlliediad o'r cyfarfod](#)). Mae'r cyngor yn ystyried amryw o opsiynau gwahanol er mwyn lleihau costau staffio'r ddarpariaeth. Yn ôl Cyngor Gwynedd, y rheswm dros ystyried y newidiadau hyn yw bod gostyngiad yn y gyllideb sy'n dod i'r cyngor drwy Grant Gwella Addysg Llywodraeth Cymru. Dyma'r ffrwd arian sydd wedi cynnal y ddarpariaeth ers blynnyddoedd.

Fel yr amlinellwyd yn ein tystiolaeth flaenorol, yn ogystal â sicrhau cyllideb graidd ddigonol i awdurdodau lleol, mae grantiau addysg Llywodraeth Cymru yn hynod bwysig er mwyn gyrru amcanion polisi Cymraeg 2050. Yn y gorffennol roedd Llywodraeth Cymru yn dyrannu Grant y Gymraeg mewn Addysg i awdurdodau lleol i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd ac ar led Cymru. Yn 2015 penderfynodd Llywodraeth Cymru gyfuno amryw o grantiau addysg gwahanol (gan gynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg) i mewn i un prif grant, sef y Grant Gwella Addysg. Mae'r Grant Gwella Addysg yn cael ei ddarparu i gonsortia addysg rhanbarthol, sydd wedyn â disgresiwn i ddefnyddio'r arian yn unol â blaenoriaethau lleol. Ein dealltwriaeth ni yw bod gostyngiad (mewn termau

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

real) wedi bod yn yr arian y mae consortia rhanbarthol yn ei dderbyn o'r cynllun Grant Gwella Addysg dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn yn ei dro wedi arwain at ostyngiad yn yr arian sy'n cael ei ddarparu gan y consortia i gynghorau sir er mwyn ariannu amryw o weithgareddau ym maes addysg.

Yn achos Gwynedd mae hyn yn golygu bod llai o arian yn dod gan y consortia ar gyfer ariannu'r canolfannau iaith. Ein dealltwriaeth ni yw bod y consortiwm rhanbarthol, GwE, yn parhau i ddarparu'r un gyfran o'r cyllid ar gyfer canolfannau iaith ag yr oedd Cyngor Gwynedd yn ei dderbyn o dan drefniadau blaenorol (hynny yw, pan oedd yr arian wedi'i neilltuo yn benodol dan Grant y Gymraeg mewn Addysg, a chyn hynny grantiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg). Mae'n ymddangos felly mai mater o ostyngiad ym maint cychwynnol y Grant Gwella Addysg a ddaw gan y Llywodraeth yw hyn yn hytrach na bod y consortiwm yn ail flaenoriaethu sut bydd yr arian yn cael ei wario. Oherwydd y pwysau sydd eisoes yn bodoli ar awdurdodau lleol yng nghyd-destun gostyngiad yn y gyllideb ganolog (sydd wedi golygu toriadau sylweddol i gyllidebau ysgolion mewn nifer o awdurdod lleol), nid yw'n glir sut y disgwylir i awdurdodau lleol barhau i ariannu eu gwasanaethau addysg ar y lefelau presennol.

Rwy'n ymwybodol bod amryw o faterion cymhleth yn codi yn y cyd-destun hwn, er enghraifft a ddylid neilltuo cyllidebau a grantiau ai peidio, a sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng ariannu awdurdodau lleol a chonsortia ac yn y blaen. Er hyn, wrth wrando ar y drafodaeth ym mhwyllgor craffu addysg cyngor Gwynedd mae'n amlwg bod diffyg cyllid addysg gyffredinol (o ba bynnag ffynhonnell y daw) yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried cwtogi ar wasanaeth sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus yn creu siaradwyr Cymraeg rhugl, ac sydd wedi cael ei amlygu fel arfer da gan Lywodraeth Cymru ac ESTYN.

Mae'n arwyddocaol mai dyma'r math o benderfyniadau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, a hynny yng nghyd-destun strategaeth Cymraeg 2050 a datganiadau diweddar y Llywodraeth ynglŷn â phwysigrwydd y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg